## Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Darlithydd mewn Dylunio Graffeg** |
| **Ysgol:** | **Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd** |
| **Lleoliad:** | **Campws Llandaf** |
| **Gradd:** | **7 A/B** |
| **Cyflog:** | **£46,049 - £51,753 y flwyddyn (pro rata)** |
| **Oriau:** | **14.8 awr yr wythnos** |
| **Daliadaeth:** | **Cyfnod penodol tan 31 Gorffennaf 2027** |

**Crynodeb o'r rôl:**

Nodweddir Dylunio Graffeg ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd gan ddiwylliant o arbrofi, gwreiddioldeb a chydweithio rhyngddisgyblaethol. Mae'r rhaglen yn annog myfyrwyr i ddatblygu hunaniaeth greadigol unigol trwy brosesau dylunio proffesiynol sy'n cydbwyso meddwl cysyniadol, archwilio deunyddiau, arloesedd technolegol ac ymwybyddiaeth fasnachol. Bydd deiliad y swydd yn ysbrydoli myfyrwyr i gymryd risgiau creadigol, ymgysylltu'n feirniadol â heriau cyfoes ym maes dylunio graffeg, ac archwilio dimensiynau cymdeithasol, diwylliannol, moesegol ac amgylcheddol ymarfer dylunio graffeg.

Bydd gofyn i ddeiliad y swydd addysgu ym maes Dylunio Graffeg, gan roi pwyslais ar Ddylunio Cymdeithasol, Teipograffeg a Dylunio Gwybodaeth, yn ogystal â damcaniaeth ac ymarfer entrepreneuriaeth greadigol.

Bydd deiliad y swydd yn cyfrannu at brosiectau cydweithredol rhyngddisgyblaethol ym meysydd ymchwil, arloesi ac addysgu. Fel rhan o gwricwlwm rhyngddisgyblaethol unigryw Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd, byddant yn cyfrannu at bynciau eraill yn ôl yr angen ar lefelau israddedig ac ôl-raddedig, yn ogystal ag at fodiwlau traws-ysgol ar bob lefel. Byddant yn rhan o ddiwylliant addysgu ac ymchwil bywiog, gan wreiddio eu harbenigedd yn y cwricwlwm, cydweithio â chydweithwyr, a datblygu allbynnau ymchwil neu effaith sy'n berthnasol i'w harbenigedd pwnc a'u meysydd ymchwil arbenigol.

## Proffil y Rôl

**Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:**

**Cymorth dysgu ac addysgu**

- Goruchwylio myfyrwyr israddedig, ôl-raddedig ac ymchwil.
- Dylunio deunyddiau dysgu a'u cyflwyno, naill ai ar draws ystod o fodiwlau neu o fewn maes pwnc.
- Dylunio a chynnal cynnwys ac amgylcheddau dysgu rhithwir.
- Defnyddiwch ddulliau priodol o addysgu, cefnogi dysgu ac asesu.
- Goruchwylio prosiectau myfyrwyr, a/neu (er enghraifft) teithiau maes ac, lle bo'n briodol, lleoliadau.
- Nodi meysydd lle mae angen adolygu neu wella'r ddarpariaeth bresennol.
- Cyfrannu at gynllunio, dylunio a datblygu amcanion a deunydd.
- Gosod, marcio ac asesu gwaith ac arholiadau, a rhoi adborth i fyfyrwyr.

**Ymchwil ac ysgolheictod**

- Arwain cynigion a phrosiectau ymchwil a/neu arloesi sydd â'r potensial i gynhyrchu incwm, rheoli canlyniadau prosiect, cyflawni allbynnau a sicrhau effaith.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid y brifysgol i nodi ffynonellau cyllid ar gyfer ymchwil a/neu arloesi, ac arwain y broses o sicrhau cyllid.
- Rheoli cyflawni prosiectau ymchwil ac/neu arloesi unigol ac/neu gydweithredol yn unol â'r amserlen ac o fewn y gyllideb.
- Defnyddio gwybodaeth a gafwyd o ymchwil ac arloesi, yn ogystal ag ysgolheictod, ym meysydd dysgu ac addysgu a gweithgareddau allanol priodol.
- Arwain y gwaith o gynllunio a chynhyrchu cyhoeddiadau a adolygir gan gymheiriaid a/neu allbynnau i ymarferwyr, a/neu ledaenu canfyddiadau ymchwil gan ddefnyddio cyfryngau priodol eraill.
- Arwain y broses o gynhyrchu a lledaenu allbynnau arloesi a/neu ymchwil.
- Cyflwyno mewn cynadleddau academaidd a/neu ymarferwyr ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol, neu arddangos gwaith mewn digwyddiadau priodol eraill.
- Goruchwylio myfyrwyr graddau ymchwil a chefnogi myfyrwyr ymchwil i reoli prosiectau nes eu cwblhau'n amserol.

**Cyfathrebu**

- Cyfathrebu syniadau cymhleth a chysyniadol yn rheolaidd.

**Cysylltu a rhwydweithio**

- Cymryd rhan mewn rhwydweithiau mewnol ac allanol, a helpu i'w datblygu, er budd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ym meysydd addysgu ac ymchwil.

**Rheoli pobl**

- Mentora cydweithwyr sydd â llai o brofiad a rhoi cyngor ar ddatblygiad personol.
- Yn dibynnu ar y maes gwaith, gallai fod disgwyl i chi oruchwylio gwaith pobl eraill.

**Gwaith tîm**

- Gweithredu fel aelod cyfrifol o'r tîm, gan arwain lle cytunwyd ar hynny, a datblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gydag aelodau eraill o'r staff.
- Cydweithio â chydweithwyr i nodi ac ymateb i anghenion myfyrwyr.

**Gofal bugeiliol**

- Gallai fod disgwyl i chi weithredu fel tiwtor modiwl.
- Bod yn gyfrifol am ofal bugeiliol myfyrwyr o fewn ardal benodedig.
- Delio â phroblemau cyffredin a helpu cydweithwyr i ddatrys eu pryderon ynghylch cynnydd mewn ymchwil.

**Menter, datrys problemau a gwneud penderfyniadau**

- Asesu, dehongli a gwerthuso canlyniadau ymchwil.
- Nodi'r angen i ddatblygu cynnwys neu strwythur modiwlau ar y cyd â chydweithwyr, a gwneud cynigion ynghylch sut y dylid cyflawni hyn.
- Datblygu syniadau sy'n hyrwyddo'r pwnc a/neu'r meysydd ymchwil.
  e.e. Datblygu syniadau a dod o hyd i ffyrdd o ledaenu a chymhwyso canlyniadau ymchwil ac ysgolheictod.
  e.e. Cyfrifoldeb am ddylunio a chyflwyno modiwlau a dulliau asesu personol.
  e.e. Cydweithio â chydweithwyr ar weithredu gweithdrefnau asesu.
  e.e. Cynghori eraill ar faterion strategol fel recriwtio myfyrwyr a marchnata.
  e.e. Cyfrannu at achredu cyrsiau a phrosesau rheoli ansawdd.

**Cynllunio a rheoli adnoddau**

- Fel arweinydd modiwl neu diwtor, cydlynu ag eraill (fel staff cymorth neu gydweithwyr academaidd) i sicrhau bod anghenion a disgwyliadau myfyrwyr yn cael eu diwallu.
- Rheoli prosiectau sy'n ymwneud â'ch maes gwaith eich hun.
- Cymryd rhan yn y broses o ddatblygu syniadau ar gyfer cynhyrchu incwm.

**Gofynion synhwyraidd, corfforol ac emosiynol.**

- Cydbwyso pwysau addysgu, gofynion gweinyddol a therfynau amser sy'n cystadlu â'i gilydd.

**Amgylchedd gwaith**

- Yn nhestun polisi Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd, ac yn dibynnu ar y maes gwaith a lefel yr hyfforddiant a gafwyd, gellir disgwyl i chi gynnal asesiad risg ac ysgwyddo cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch pobl eraill.

**Arbenigedd**

- Meddu ar ddigon o ehangder neu ddyfnder o wybodaeth arbenigol yn y ddisgyblaeth i ddatblygu rhaglenni addysgu a/neu ymchwil a darparu cymorth dysgu.
- Defnyddio amrywiaeth o dechnegau cyflwyno.

**Hysbysiad Safonol**

**Darperir y canllawiau hyn i'ch cynorthwyo wrth gyflawni eich rôl. Mae'r brifysgol yn sefydliad deinamig; felly, gallai fod angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Gwneir unrhyw newidiadau ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd. Nid yw'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau wedi'i fwriadu i fod yn rhestr gynhwysfawr o'r tasgau a gyflawnir. Mae'n debygol y bydd tasgau cysylltiedig eraill yn cael eu cyflawni yn**

**unol â chyfarwyddyd y rheolwr llinell .**

**Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi ystyriaeth briodol i effaith eu hymddygiad a'u hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos eu bod yn cadw at ein Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd sy'n ymwneud â Chydraddoldeb; Materion Ariannol; yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd; Gwasanaethau Pobl; ac Iechyd a Diogelwch.**

## Manyleb y Person

Teitl y Swydd: Darlithydd mewn Dylunio Graffig

Ysgol/Uned: Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd

*Allwedd
Ff - Ffurflen gais
C - Cyfweliad
Cyfl - Cyflwyniad

| FFACTORAU | Meini prawf hanfodol a dymunol | ASESIR GAN | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Ff* | C * | Cyfl * |
| **Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)** | Gradd anrhydedd dda. | ✓ | | |
| | Y gallu i ennill statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Adysg Uwch, o fewn cyfnod o dair blynedd. | ✓ | ✓ | |
| **Addysg a Chymwysterau (Dymunol)** | Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch. | ✓ | | |
| | Aelodaeth o gorff proffesiynol. | ✓ | | |
| | Cymhwyster doethurol a enillwyd | ✓ | | |
| **Gwybodaeth (Hanfodol)** | Lefel dda o wybodaeth sy'n berthnasol i'r pwnc a'r maes proffesiynol. | ✓ | ✓ | |
| | Tystiolaeth o ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (CPD). | ✓ | | |
| | Dealltwriaeth gadarn o addysgeg. | ✓ | | |
| | Dealltwriaeth gadarn o ymchwil/arloesedd a gweithgaredd ysgolheigaidd. | ✓ | ✓ | |
| | Tystiolaeth o ymgysylltu ag ymchwil/arloesedd/arfer. | ✓ | ✓ | |
| | Arbenigedd mewn Teipograffeg a Dylunio Gwybodaeth. | ✓ | ✓ | |
| | Arbenigedd mewn theori ac ymarfer entrepreneuriaeth greadigol. | ✓ | ✓ | |

| **Gwybodaeth (Dymunol)** | N/A | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Galluoedd sy'n Berthnasol i'r Rôl (Hanfodol)** | Y gallu i ddatblygu rhaglenni addysgu a/neu ymchwil a darparu cymorth dysgu. | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Y gallu i ddylunio deunyddiau dysgu ac addysgu ysbrydoledig ac effeithiol. | ✓ | | |
| | Y gallu i ddefnyddio dulliau asesu priodol. | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Y gallu i gefnogi datblygu amcanion, prosiectau neu gynigion ymchwil. | ✓ | ✓ | |
| | Y gallu i ddefnyddio dulliau priodol i ledaenu canfyddiadau ymchwil. | ✓ | | |
| | Y gallu i gyfrannu at gyflawni Cynllun Datblygu'r Ysgol a datblygu gweithgareddau ysgol eraill. | | ✓ | |
| | Y gallu i ymgymryd â dyletswyddau gweinyddol yn gywir ac yn amserol. | ✓ | | |
| | Y gallu i gynllunio llwythi gwaith a phrosiectau a rheoli adnoddau'n effeithiol. | ✓ | ✓ | |
| | Y gallu i nodi meysydd i'w gwella ac i ddefnyddio menter a sgiliau datrys problemau i wella perfformiad. | | ✓ | ✓ |
| | Y gallu i ysgwyddo cyfrifoldeb am nifer o feysydd allweddol, megis tiwtor modiwl a goruchwylio ymchwil ar lefel israddedig. | ✓ | | |
| | Y gallu i gyfathrebu a lledaenu syniadau cymhleth a chysyniadol mewn amrywiaeth o ffyrdd – cyflwyniadau mewn cynadleddau, adroddiadau ar ganfyddiadau, cyhoeddiadau, adborth ac ati. | | ✓ | ✓ |
| | Y gallu i ddatblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol fel rhan o dîm proffesiynol. | | ✓ | |
| | Y gallu i gydweithio ar ymchwil a/neu brosiectau drwy ddatblygu partneriaethau priodol. | | ✓ | |
| | Y gallu i ddatblygu cynnwys dysgu rhithwir digidol. | ✓ | ✓ | |
| | Y gallu i weithio gyda phartneriaid allanol o'r diwydiant a'r gymuned er mwyn datblygu'r cwricwlwm neu fentrau ymchwil. | ✓ | ✓ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Galluoedd sy'n Berthnasol i'r Rôl (Dymunol)** | Y gallu i gymryd rhan mewn mentrau trawsddisgyblaethol ym maes addysgu ac ymchwil.<br><br>Y gallu i ddatblygu mentrau newydd ym meysydd addysgu, ymchwil ac arloesi . | | ✓<br><br>✓ | |
| **Profiad â thâl/heb dâl (Hanfodol)** | Profiad o addysgu neu gyfatebol.<br><br>Profiad o ymchwil neu gyfatebol.<br><br>Profiad o ddenu neu gynhyrchu cyllid/incwm drwy amrywiaeth o ffynonellau.<br><br>Profiad o weithio gydag eraill mewn rôl oruchwylio, arwain, cefnogi neu fentora. | ✓<br><br>✓<br><br>✓<br><br>✓ | <br><br><br><br>✓<br><br>✓ | |
| **Profiad â Thâl/Heb Dâl (Dymunol)** | Profiad o addysgu ac ymchwil mewn Addysg Uwch.<br><br>Profiad o oruchwylio graddau ymchwil.<br><br>Profiad o ddylunio print a digidol a ymwybyddiaeth o sianeli cyfathrebu newydd a technoleg newydd. | ✓<br><br>✓<br><br>✓ | <br><br><br><br>✓ | |
| **Gofynion eraill (Hanfodol)** | Parodrwydd i weithio ar benwythnosau achlysurol i gefnogi gweithgareddau recriwtio. | ✓ | | |
| **Gofynion eraill (Dymunol) Sgiliau Iaith Gymraeg** | <u>Gwrando, Darllen, Siarad, Ysgrifennu</u><br><br>**A1 - Dechreuwr**<br>Gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn Gymraeg. | ✓ | | |